

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Yn yr aseiniad yma byddaf yn gwerthuso yn feirniadol y camau dysgu ac addysgu yr wyf fi wedi arsylwi yn ystod fy nghyfnod ar leoliad mewn ysgol uwchradd. Byddaf yn trafod yr astudiaethau wnes i nodi am y dysgwyr a'r addysgwyr ac hefyd cyfeirio yn benodol at ambell i sylwad wnes i nodi a'i uwchleuo yn yr atodiadau. Wrth drafod fy sylwadau personol fyddaf yn canolbwyntio ar un achos critigol yn benodol mewn ychydig mwy o ddyfnder. Wrth i mi drafod hyn ac unrhyw sylwadau eraill byddaf yn cyfeirio at waith yr athro Donaldson a'r pedwar diben wnaeth ef eu cyflwyno. Ac wrth i mi ystyried pedwar diben yr athro Donaldson byddaf hefyd yn nodi unrhyw elfennau sydd yn gysylltiedig neu sydd ddim yn cysylltu gyda fy mhrofiad i a'r sylwadau wnes i. Yn ogystal â hyn byddaf hefyd yn ymchwilio i mewn i feysydd eraill ac yn ystyried dehongliadau, damcaniaethau a sylwadau eraill sydd yn clymu i mewn i fy ngwaith i, neu sydd yn cyferbynnu yn llwyr gyda'r hyn rydw i'n ei ddweud. Wrth wneud hyn byddaf yn cynnwys gwerthusiad ac yn adfyfrio ar fy sylwadau i geisio honni datblygiad i'r camau dysgu ac addysgu ac yna cynnig awgrymiad ar y camau ddylai ddilyn yn fy marn i.

Arsylwi

Fel y mae'n bosib gweld yn yr atodiadau fe wnes i arsylwi gwersi yn ysgol uwchradd ac mae fy sylwadau i yn benodol am wersi blwyddyn saith ac wyth ac felly roedd y disgyblion wnes i arsylwi rhwng un ar ddeg a thair ar ddeg mlwydd oed. Yn ogystal â hyn mae'r atodiadau hefyd yn cynnwys y ffaith mai dosbarthiadau gwahanol wnes i arsylwi hefyd nid yn unig o rhan oedran ond o rhan gallu hefyd. Mae (BERA) yn gymdeithas sydd yn ymchwilio i addysg ym Mhrydain ac mae'r gymdeithas yn cyflwyno adnoddau sydd i ymwneud a'r maes yma o ymchwilio. Wrth i mi ymchwilio wnes i ddod ar draws rhai canllawiau sydd yn cael eu honni gan y gymdeithas sydd yn berthnasol i arsylwi mewn ysgol uwchradd. Mae'r canllawiau yma yn sicrhau proffesiynoldeb ac yn sicrhau fod myfyrwyr sydd yn ymchwilio maes megis yr un yma yn ymddwyn mewn ffordd

addas trwy gydol y broses ymchwilio. Yn ôl canllawiau (BERA 2018) mae rhaid i gyfranogwyr hystyried y ffordd maent yn cymryd rhan yn y broses o arsylwi naill ai mewn ffordd weithredol neu mewn ffordd oddefol. Yn yr un canllawiau mae BERA yn trafod y ffaith dylai'r proses fod yn anhysbys ac ni ddylai unrhyw gyfranogwr cael ei enwi yn ystod y broses. Y trydydd canllaw rydw i yn credu dylai cael ei hystyried yn ddwys yn ystod y broses ydy'r canllaw sydd yn nodi ni ddylai'r ymchwilydd beirniadol o'i chyfoedion ar unrhyw achlysur, byddai hyn yn ddifennol ac yn amhroffesiynol. Mae'r canllawiau yma yn esiamplau rydw i wedi cymryd o nifer eang, y rhai wnes i ystyried fwyaf wrth ymchwilio ac yn esiamplau o rhai o'r prif ganllawiau yn fy marn i a'r rhai wnes i gadw ar gof wrth ymchwilio.

Methodoleg

Wrth ymchwilio i'r gwahanol fathau o fethodoleg sydd ar gael sydd yn gysylltiedig gyda'r maes ymchwil yma mae'n bosib dod o hyd i amrywiaeth o dechnegau arsylwi sydd yn honni manteision gwahanol am y technegau amrywiol. Mae Cohen et al. 2018 yn honni technegau amrywiol sydd i ymwneud â thechnegau ymchwilio ac arsylwi a un o'r technegau yma ydy'r arsylwr cyfranogwr. Mae Cohen et al. 2018 yn rhoi'r esboniad yma o rôl yr arsylwr fel cyfranogwr;

“not a member of the group, but who may participate a little or peripherally in the group's activities, and whose role as a researcher is clear and overt, as unobtrusive as possible...”

Dyma'r dechneg wnes i benderfynu cymryd yn ystod fy ngwaith ymchwil, roedd yr athro dosbarth a'r disgyblion yn ymwybodol fy mod i yn arsylwi gwersi ond fe wnes i sicrhau fod fy ffordd i o arsylwi ac ymchwilio yn cael effaith fach iawn ar y gwersi. Nid oedd bwriad gennyf fi darfu ar y wers na'r disgyblion wrth iddyn nhw weithio.

Yn ôl Kumar 2014 mae arsylwi yn ffordd o gasglu data cynradd ac felly roedd hi'n bosib am yr elfennau sydd wedi ei nodi yn cynnwys llyfrau Petty 2004 a Capel et al. 2005. Mae'r tudalennau yn cynnwys yn nodi'r hyn mae'r awduron yn credu sydd yn angenrheidiol ar athrawon i ddysgu mewn ysgol uwchradd yn effeithiol a hefyd fel y dylai plant ymateb a chael ei asesu. Yn fy marn i roedd arsylwi trwy ddefnyddio'r dechneg di-gyfrangol yn galluogi mi i gadw llygaid am rhai o'r pethau sydd yn cael ei honni yn y llyfrau yma. Nid ond y pethau yma oedd yn gallu cael i arsylwi yn ystod y gwersi trwy ddefnyddio'r model yma o arsylwi ond roedd hi'n bosib gwneud sylwadau oedd yn gysylltiedig ag elfennau eraill megis rheolaeth dosbarth, ymddygiad o fewn y dosbarth a'r ffordd roedd yr athro a'r disgyblion yn cyfathrebu gyda'i gilydd. Mae Blexter et al. 2010 yn honni tair techneg o arsylwi sydd yn medru clymu i mewn gyda'r ffordd o arsylwi gwersi trwy fod yn arsylwr cyfranogwr. Y

technegau yma ydy, darllen, gwrandio a gwylio, oedd yn elfennau cyson yn ystod y broses arsylwi wnes i gymryd. Fel mai Blexter et al. 2010 yn honni mae darllen, gwrandio a gwylio yn defnyddiol iawn ac yn fy marn i mae'r awgrymiad yma yn gywir. Yn fy mhrofiad personol i roedd angen gweithredu'r tair elfen yma yn ystod yr ymchwiliad ac arsylwi. Ar y llaw arall mae Cohen et al. 2018 hefyd yn awgrymu techneg arsylwi sydd yn cael i gyflwyno fel yr arsylwr cyflawn ac wrth ystyried y dechneg yma rhaid hefyd ystyried yr Effaith Hawthorne. Y dyfyniad sydd yn cael ei rhoi gan Cohen et al. 2018 ynglyn a'r arsylwt cyflawn ydy;

"Who only observes (overt or covert) and is detached from the group, for example, an outside observer, or where the observer is not covert but whose presence is unnoticed by the group, for example, an observer in a crowded location."

Mae Mayo (2003) yn trafod yr arbrawf Hawthorne, lle wnaeth gweithwyr cael ei arsylwi yn ei gwaith ac yn ymwybodol o'r ffaith i fod nhw yn cael ei arsylwi. Fe wnaeth yr ymchwiliwyr darganfod fod y gweithwyr oedd yn cael ei arsylwi yn gweithio yn well oherwydd roeddent yn ymwybodol i fod nhw yn cael ei arsylwi. Felly mae hyn yn awgrymu fod y dechneg wnes i ddefnyddio yn cael effaith ar ymddygiad y disgyblion ac mewn ambell i sefyllfa'r addysgwr. Wedi dweud hyn rwyf yn credu mai'r dechneg wnes i ddefnyddio yn gweithio yn effeithiol mewn amgylchiadau ysgol. Pe bai'r dechneg o fod yn arsylwr cyflawn yn cael ei weithredu byddai hi'n galed i gymryd mantais o arsylwi gwersi a chyfathrebu gyda'r disgyblion/athrawon. Yn yr un modd mae hefyd mantais o arsylwi achosion critigol tu fewn a thu allon o'r dosbarth wrth fod yn arsylwr cyfranogol.

Pedwar Pwrpas

Yn atodiadau un a phump y mae cynnwys yr achos critigol wnes i benderfynu canolbwyntio arno. Fel y mae'n bosib gweld yn atodiadau un a phump mae'r achos critigol yma yn un positif nid oedd hi'n achos oedd yn medru cael ei beirniadu mewn ffordd negyddol oherwydd cam ymddwyn, diffyg canolbwyntio neu rywbeth yn debyg. Mewn gwirionedd y mae craidd yr achos critigol yma yn gwrthwynebu elfennau fel hyn yn llwyr. Un o'r prif sylwadau rwyf am wneud ynglŷn â'r achos critigol ydy'r perthynas rhwng y disgyblion a'r athro dosbarth. Roedd hi'n amlwg fod yr athro a'r dosbarth wedi dod i adnabod ei gilydd dros yr wythnosau blaenorol ac roedd hyn yn amlwg wrth y ffordd roeddent yn cyfathrebu. Rhaid uwchleuo'r ffaith mai dosbarth blwyddyn saith oedd yn cael ei ddysgu yn y wers yma felly nid oeddent wedi bod yn yr ysgol am gyfnod hir iawn ar yr adeg yma. O ran manylion y wers yma mae'n bosib gweld yn atodiad pump mai dosbarth o dau ddeg pedwar disgybl oedd yn cael ei arsylwi yn yr achos yma a dyma oedd y dosbarth gallu uchaf ym mathemateg. Fel soniais i yn gynt blwyddyn saith oedd y disgyblion yma ac roeddent yn mynychu'r wers mathemateg am un awr. Fe wnes i sylwi fod ambell i ddisgybl yn y dosbarth yma yn siaradus iawn yn

wersi eraill ac yn gallu gadael ei meddyliau i grwydro oddi ar y dasg yn wersi eraill hefyd. Wnaeth y wers mathemateg profi fod awyrgylch dosbarth a'r ffordd mae'r athro yn creu'r awyrgylch yma yn medru effeithio ar ymddygiad a dysgu'r plant. Wrth i mi gyrraedd y wers roedd y disgyblion yn sefyll mewn llinell drefnus tu allan i'r dosbarth cyn i'r athro gofyn iddyn nhw ddod i mewn a phan ddaeth y disgyblion i mewn i'r dosbarth roeddent yn dawel ac yn drefnus. Nod y wers oedd cyflwyno'r disgyblion i ddegolion a chafodd nod ac amcanion y wers i gyflwyno yn glir iawn o'r cychwyn. Ar ôl cyflwyno'r nodau ac amcanion roedd y gweithgaredd cyntaf ar y bwrdd ac roedd y disgyblion yn cael ei ddodi ar y dasg yn syth. Roedd yr athro yn cael cyfleoedd i gwestiynu unrhyw beth nad oeddent yn deall ac roedd yr athro yn ddigon parod i ateb y cwestiynau. Pan oedd hi'n dod i weithio'r symiau allan roedd yr athro yn cyflwyno ei dechneg nhw cyn gofyn i'r disgyblion os oedd technegau gwahanol ganddyn nhw. Erbyn hyn roedd ambell i ddisgybl wedi codi llaw i gynnig syniadau ac roedd yr athro a gweddill y dosbarth yn gwrando. Os oedd y dechneg roedd y disgybl yn defnyddio yn gweithio neu yn gwneud yr ymarfer yn rhwyddach iddyn nhw roedd yr athro yn ddigon hapus iddyn nhw ddefnyddio'r dechneg yma yn ei waith. Mae Donaldson 2015 wedi datblygu cwricwlwm newydd ac wrth arsylwi'r wers yma roedd y pedwar pwrpas sydd yn gysylltiedig gyda'r cwricwlwm newydd yn cylchredeg yn fy meddwl. Y pedwar diben mae Donaldson 2015 yn honni yw'r canlynol: fod y dysgwyr yn, 1, dysgwyr galluog uchelgeisiol, 2, dinasyddion gwybodus moesegol, 3, cyfranwyr mentrus, creadigol a 4, unigolion iach, hyderus. Wrth arsylwi'r wers a meddylu dros y dibenion rwyf yn honni bod y wers yma yn gysylltiedig â thri ohonynt. Rhif un ydy I fod yn dysgwyr galluog uchelgeisiol yn un ohonynt wrth iddyn nhw geisio gweithio'r atebion allan a chael yr ateb ar dechneg yn gywir. Rhif tri i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol, roedd rhaid i'r disgyblion mentro i gynnig ei atebion nhw a phrofi fod y dechneg defnyddion nhw yn gweithio. Ac mae pedwar i fod yn unigolion iach, hyderus yn cael i weithredu wrth iddyn nhw esbonio i'w cyfoedion a'r athro fel mae'r dechneg yn gweithio.

Adolygiad Llenyddiaeth

Un o'r prif sylwadau sydd wedi cael ei uwchleuo ynglŷn â'r achos critigol ydy'r cyfathrebu. Roedd cyfathrebu da rhwng yr athro a phob un o'r disgyblion yn y wers mathemateg ac roedd hefyd cyfathrebu da rhwng y disgyblion a'i chyd- ddisgyblion. Roedd y disgyblion yn cyflwyno eu atebion a thra roedd hyn yn digwydd roedd pob disgybl yn dawel, yr unig un oedd yn siarad oedd y disgybl yna heblaw os oedd angen trafod yr atebion ac yna roedd yr athro yn siarad neu yn caniatáu i'r dosbarth i drafod. Mae Donaldson 2015 yn nodi;

"The ambitions for this new curriculum needs' teacher's professional skill and judgement in selecting the right teaching methods."

Yn fy marn i roedd hi'n amlwg yn y wers yma fod yr athro wedi cynllunio technegau a dulliau dysgu da er mwyn addysgu'r plant mewn ffordd effeithiol ac roedd y cyfathrebu da yn elfen bwysig yma. Mae Riley 2011 yn nodi pwynt pwysig iawn ynglyn a'r pwysigrwydd i gael perthynas rhwng athro dosbarth. Y pwynt yw bod disgyblion ysgolion uwchradd yn wahanol i ddisgyblion ysgol gynradd medru ffeindio'i hunain mewn sefyllfa lle byddant mewn cysylltiad gydag athro rhyw bwnc penodol am gyfnod hir iawn, yn wahanol i'r cynradd lle mae'r athro yn newid ar ôl blwyddyn. Ac felly mae'r pwynt yma yn gefnogol o'r dehongliad fod perthynas a chyfathrebu da rhwng athrawon a'r dosbarth yn holl bwysig. Yn y sefyllfa yma roedd yr athro yn nabod y dosbarth a'r dosbarth yn nabod yr athro ac felly roeddent yn deall ei gilydd ac roedd y wers yn rhedeg yn esmwyth. Un o'r elfennau mae Florian et al. 2017 yn trafod ydy'r pwysigrwydd o gyflawniad a chynhwysiant oedd yn elfen amlwg arall o'r achos critigol. Roedd cefnogaeth a chlod yn cael ei roi i'r disgyblion yn gyson trwy gydol y wers ac roedd y disgyblion yn cael eu gynnwys yn pob gweithgaredd. Roedd yr awyrgylch yn y dosbarth yn bositif iawn ac roedd y disgyblion yn ymateb yn effeithiol ac yn gadarnhaol i'r athro, i'r dysgu ac yn ôl Lindberg et al. 2005 dylai pob athro bod yn ymwybodol ac yn gefnogol o hyn. Mae Llywodraeth Cymru 2011 yn cynnig canllawiau sydd yn ddisgwyliedig i athrawon Cymru i gyrraedd. Mae rhai o'r canllawiau yma yn clymu i mewn gyda'r hyn sydd yn cael ei drafod yma ac mae canllawiau rhif, thri a phump yn nodi dylai athrawon;

2) *"Value fair, respectful, trusting, supportive and constructive relationships with children and young people."*

3) *"Have High expectations of the children and young people in order to improve outcomes and well-being for all learners."*

5) *"Value the active involvement of children and young people in their progress, development and well-being."*

Wrth drafod yr elfen o gyfathrebu yn y dosbarth mae White 2016 yn honni fod tair gwahanol fathau o gyfathrebu ar gael mewn ystafell dosbarth, neu oleiaf dylai fod tri math gwahanol. Mae White 2016 yn awgrymu dylai cyfathrebu addysgeg, cyfathrebu datblygiadol a chyfathrebu cyfarwyddiadol i gyd i ddigwydd o fewn yr ystafell dosbarth. Roedd yr achos critigol yn cynnwys y tair esiampl o gyfathrebu yma yn y wers ac felly mae hyn eto yn gefnogol o'r awgrym fod cyfathrebu da yn effeithiol yn fanteisiol o fewn gwersi ysgol ac efallai yn yr ysgol yn gyffredinol. Roedd cynllun gwrs a strwythur clir hefyd yn amlwg yn yr achos critigol a beth oedd yn diddorol i weld oedd ymateb i'r plant pan oedd y nod a'r dasg gyntaf ar y bwrdd wrth iddyn nhw gyrraedd. Roedd hyn yn gweithio'n dda ac roedd y plant wedi ymateb yn gadarnhaol iawn oherwydd roeddent yn cael i herio yn syth wrth gyrraedd yr ystafell dosbarth. Yn ôl Butt 2006 mae'n holl bwysig i athrawon i gynllunio dechreuadau i'w

gwrs er mwyn i'r disgyblion dechrau'r broses meddwl o'r dechrau a medru gwneud cyfraniad i'r wers wrth iddo fynd ymlaen. Mae gwaith Butt yn gefnogol o'r pwysigrwydd herio plant o'r cychwyn ac yn gefnogol hefyd o ddodi'r disgyblion i weithio ar eu dasgau wrth iddynt gyrraedd y wers. Yn fy marn i mae'r dull yma o gychwyn gwrsi yn defnyddiol iawn ac er oedd yr athro yn cyflwyno ateb i'r dosbarth yn y wers yma ac roedd rhaid i'r disgyblion dod o hyd i symiau posib roedd digon o gyfleoedd i ofyn cwestiynau ac nad oeddent yn deall ac roedd yr athro yn amlwg yn ymwybodol o hyn, felly, yn barod i helpu. Roedd yr elfen yma o ofyn cwestiynau ac esbonio a thrafod yn elfen gyson trwy gydol y wers. Yn mynd yn ôl i Gwaith Capel et al. 2006 mae'n cael i nodi fod gwaith athro a dysgu yn weithgaredd personol iawn a phan mae un steil o ddysgu yn gweithio i un athro efallai ddim yn gweithio i athrawon eraill. Felly, mae'r awgrym yma yn honni fod y technegau sydd wedi cael ei drafod yn yr adran yma ddim yn llwyddo i bawb ac efallai bod rhai o'r elfennau yma yn brin yn y gwrsi eraill sydd yn yr atodiadau eraill. Yn bersonol rydw i'n honni fod creu awyrgylch positif a chyfathrebu gyda'r plant yn fanteisiol i unrhyw athro. A bydde'n i yn awgrymu fod gosod tasg ar gychwyn y wers yn strategaeth dda i ddefnyddio ac yn effeithio yn gadarnhaol ar y disgyblion yn y dosbarth am weddill y wers. Un peth rydw i'n teimlo dylai cael ei nodi yma ydy'r ffaith bod llawer o ddehongliad yn dod i pwyslais ar ymddygiad yr athro o fewn y gwrsi. Yn fy achos critigol i mae'r athro yn cael ei weld mewn ffordd bositif ond efallai pe bai ymddygiad yr athro wedi bod yn wahanol neu agwedd yr athro wedi bod yn gwahanol raid gofyn y cwestiwn, a fyddai'r wers wedi bod mor llwyddiannus? Mae Petty 2004 yn trafod y tair ysgol dysgu, Ysgol Wybyddol, Ysgol Ymddygiad ac Ysgol Ddyneiddiol. Mae'r Ysgol Ymddygiad yn canolbwyntio ar ymddygiad yr athro dosbarth a'r effaith mae hyn a'r ffactorau allanol yn cael ar y dysgu/addysgu. Mae rhaid ystyried y pwynt yma wrth gwrs oherwydd yr athro sydd wrth y llyw yn y dosbarth ac felly mae ymddygiad ac agwedd yr athro mynd i ddylanwadu yn sylweddol iawn ar y ffordd mae'r wers yn cael ei ddysgu, gweithredu, strwythuro, ymateb y disgyblion, ymddygiad y disgyblion a nifer o elfennau eraill sydd yn gysylltiedig gyda'r wers. Felly, mae'n amlwg i mi wrth ystyried yr achos critigol ac yr achosion sydd yn yr atodiadau eraill fod yr athro dosbarth ei hunain yn cael effaith ar wersi yn yr ysgol ac mae hyn yn wir am wersi uwchradd a chynradd yn fy marn i. Mae Capel et al. 2019 yn edrych yn y llyfr ar natur dysgu, felly, mae'n bosib honni yma fod hi'n bwysig ac yn ddefnyddiol iawn i athrawon rhoi cyfle i'r plant i ddeall eu personoliaeth nhw a hefyd ei phresenoldeb o fewn y dosbarth er mwyn gweithredu dosbarth sydd yn ymateb yn gadarnhaol ac yn weithgar. Mae Sale 2015 yn hel atgofion am ei brofiad ef fel disgybl ysgol uwchradd ac mae ef yn cofio effaith rhai o'r athrawon a'r hyn ei ddysgodd ef yn ystod rhai o'r gwrsi. Y rheswm rydw i yn nodi hyn yw oherwydd mae pawb yn gwneud hyn, mae atgofion gan bob un unigolyn am ddyddiau ysgol ac mae pob unigolyn yn cofio atgofion da a drwg. Mae'r hyn mae'r athrawon yn gwneud yn ystod i wersi yn effeithio ar bob un disgybl yn ffordd

wahanol ac mewn ambell i achlysur efallai bydd rhai o'r effeithiau yna yn sefyll gyda'r disgyblion neu ddisgybl yn benodol am weddill ei oes. Wrth ystyried hyn rydw i'n teimlo bod hi'n bwysig defnyddio'r achos critigol i ddangos bydd yr athro yna a'r wers yna efallai yn sefyll gyda'r plant oherwydd fe ddysgon nhw rywbeth. Mae'r athro Donaldson yn ceisio annog pob athro i weithredu mewn ffordd ysbrydoledig ac i addysgu'r plant i'r gorau i allu ac felly dylai fod gan yr athrawon heddiw'r awydd i fod yr athro sydd yn sefyll yng nghof y plant sydd yn i dosbarthiadau.

Adfyfrio/ Gwerthuso a'r camau nesaf

O ran yr achos beirniadol wnes i ddewis rwyf yn gobeithio erbyn hyn mae'n glir iawn fod y profiad wedi bod yn positif ac o fudd i mi fel rhywun sydd yn ymlwybro i'r maes addysgu. Teimlaf bod awyrgylch a thechnegau y gwers yma wedi fod yn buddiol hefyd ac wedi wneud i mi feddwl yn dwys am y fath o athro rydw i am ddatblygu i fod. Yn yr un modd mae atodiadau dau, tri, pedwar, chwech, saith ag wyth hefyd wedi bod yn brofiad o fudd i mi hefyd. Rwyf wedi profi amrhywiaeth o strwythurau a thechnegau gwahanol ac hyd yn oed lle mae'r sylwadau yn negyddol megis yn tri, phedwr, saith ac wyth mae'r sylwadu yma hefyd yn mynd i fod o gymorth i mi yn y proffesiwn. O ran yr achos critigol i hunain a'r sylwadau rydw i wedi trafod rydw i yn teimlo pe bai fi yn dysgu dosbarth byddai'r elfennau yn sefyll yn union fel yr oedden nhw. Yn fy marn i roedd y disgyblion yn ymateb yn dda, roedd ymatebion cadarnhaol a deallus ac rwyf yn teimlo fod y dechneg dysgu wedi cyfleu hyn i'r disgyblion. Rwyf yn teimlo bod wynebu disgyblion gyda tasg a'i chymell nhw i feddwl am yr hyn maent yn wneud yn strwythur sydd yn talu ei ffordd yn y wers enwedig wrth i'r wers ymchwilio rhywbeth penodol mewn mwy o ddyfnder. Mae hyn yn fy marn i yn sicrhau fod y fflam wedi cynnu yn feddyliau'r disgyblion cyn iddynt fynd ymhellach. Mae adfyfrio gwersi ac elfennau da a drwg yn bwysig yn fy marn i oherwydd mae'n galluogi unigolion i wella ar eu cynllun gwersi os oes angen neu i gadw elfennau cwmws fel y mha nhw. Yn yr un modd efallai bod techneg neu gynllun sydd yn gweithio gydag un dosbarth ddim yn gweithio cystal gyda dosbarthiadau eraill. Yn cymryd yr achos critigol fel esiampl roedd y dosbarth yma yn uchel eu gallu, efallai byddai dosbarth efo llai o allu. Hefyd mae gwerthuso ffordd o asesu yn bwysig, mae rhaid i mi ystyried bod y ffordd mae dosbarthiadau gallu uwch yn cael ei asesu ddim yn gweithio gyda dosbarth sydd a llai o allu. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae rhaid bod yn uchelgeisiol o ran disgwyliadau uchel o'r disgyblion a chymell nhw i wneud ei orau ond yn yr un modd mae gosod tasgau sydd yn ormod o sialens ac yn anodd ei gallu nhw ddim yn mynd i alluogi athrawon i fesur eu gwir allu nhw. Ac felly ni fydd disgyblion gweld y wers yma mor fuddiol ac mae'n bwysig ein bod ni'n adnabod hyn ohewydd bydd yr athro ddim yn gallu asesu yn effeithiol.

Casgliadau

Wrth ymchwilio i mewn i'r maes dysgu ac addysgu rydw i wedi gweld amrywiaeth o wersi ac amrywiaeth o bethau mae'n bosib gwneud sylwadau arnyn nhw a'i thrafod. Yn yr aseiniad yma rydw i wedi cynnwys y pedwar prif achos o'r casgliad ac wedi trafod atodiad un a phump oherwydd dyma oedd yr achos mwyaf diddorol i mi. Wrth i mi drafod yr achos critigol rydw i wedi ymchwilio i mewn i wahanol ddamcaniaethau a dehongliadau gwahanol sydd yn gysylltiedig i'r testun sydd yn amrywio o'r ffordd wnes i arsylwi, gwaith yr athro Donaldson i wahanol ddehongliad ac awgrymiadau sydd yn gefnogol ac yn gyferbyniol o'n sylwadau. Rwyf wedi dod i'r casgliad fod fy mhresenoldeb i o fewn y dosbarth a'r ffaith fod y disgyblion yn gwybod fy mod i yn bresennol wedi cael effaith ar ei ymddygiad yn y wers yn debyg i'r effaith Hawthorne. Wedi dweud hynny rwyf yn awgrymu mai effaith bach iawn oedd hyn. Ar ôl ystyried pedwar diben yr athro Donaldson a'r achos critigol rydw i am honni fod hi yn bwysig i athrawon ceisio gweithredu rhai o'r dibenion yma mewn i wersi er mwyn adeiladu ar hyder y disgybl ac i wthio ei allu ychydig yn fwy. Wrth i mi ymchwilio a gwneud adolygiad llenyddiaeth rwyf wedi dod ar draws amrywiaeth o elfennau sydd yn gwneud athro da ac effeithiol a chredaf fod rhaid cymryd y rhain mewn i'w ystyriaeth pob dydd, nid ymhob gwers ond ceisio cadw eich meddwl yn rhedeg dros rhai o'r elfennau sydd yn gwneud athro da. Bydd yn arwain at wersi llwyddiannus, awyrgylch dosbarth da a disgyblion sydd yn canolbwyntio ac yn ymateb yn gadarnhaol. Ac un o'r elfennau mwyaf pwysig wrth ddod i'r casgliad yma ydy'r ffaith bod rhai adfyfrio ac addasu eich technegau yn gyson.

Atodiad 1: Achos Critigol

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

*Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model***Dyddiad/Date: 02/10/19****Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Gwers Fathemateg**

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roedd y profiad o fudd oherwydd roedd y wers yn bositif a chadarnhaol. Yn ystod y wers dysgais ba mor bwysig ydyw i greu perthynas da rhwng athrawon a disgyblion, pa mor bwysig ydyw esbonio yn glir gan annog y plant i ateb cwestiynau yn hyderus. Ar y cyfan roedd y wers yn afaelgar iawn i'r disgyblion.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Roedd sawl achlysur yn y wers lle'r oedd y plant yn cael cyfle i gwestiynu er mwyn gwella dealltwriaeth neu gael esboniad gwell. Roedd hefyd cyfleoedd yn y wers i'r plant esbonio dulliau gwahanol roedden nhw yn defnyddio. Un sylw wnes i gofnodi a oedd o ddiddordeb oedd y ffaith bod yr athro yn cyflwyno un dull o ddod o hyd i'r ateb ond hefyd yn agored i ddulliau gwahanol gan y plant, ac yn fodlon iddyn nhw ddefnyddio'r dulliau os oeddent yn gweithio ac yn symleiddio'r gwaith i'r plant. Roedd yr athro hefyd yn herio'r disgyblion trwy gydol y wers gan gyflwyno symiau gwahanol. Nid oedd pob disgybl yn cymryd rhan pan oedd yna gwestiwn yn cael ei ofyn ac roedd yr athro yn dewis y rhai oedd yn codi eu dwylo yn unig.

Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Y pethau buaswn i yn cadw'r un fath ydy'r awyrgylch ddysgu bositif er mwyn hybu'r plant ynghylch eu dysgu. Hefyd byddaf yn ceisio herio'r plant mor aml ag sydd yn bosib er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth. Elfen bwysig arall ydy amseru, credaf fod hi'n holl bwysig roi digon o amser i'r plant gwestiynu gan gynnig digon o amser i'r athro esbonio yn ogystal. Rwyf hefyd yn ymwybodol fod y wers yma wedi cyffwrdd ar nifer o brif bwyntiau'r athro Donaldson, e.e. creu dysgwyr medrus, hyderus sydd yn mynegi eu hunain. Efallai dylai'r athro wedi dewis disgyblion ar hap i ateb cwestiynau, neu gyflwyno tasg oedd yn cael ei chasglu ar ddiwedd y wers er mwyn marcio'r gwaith a gweld y ddealltwriaeth. Tybiaf mai diffyg hyder oedd y brif reswm dros y disgyblion wnaeth ddim ateb.
Casgliadau a chymau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Er mwyn gwella'r addysgu bydda ddewis disgyblion ar hap, cyflwyno gwaith dosbarth/cartref sydd yn cael ei marcio'n swyddogol neu amrywio'r asesu o fewn y dosbarth yn gyffredinol yn fuddiol Er mwyn symud ymlaen byddaf yn ymchwilio i mewn i'r pwyntiau yma gan gofnodi gwahanol sylwadau a damcaniaethau. Hefyd er mwyn sicrhau dysgu ac addysgu llwyddiannus byddaf yn cadw'r pwyntiau yma wrth law wrth i mi baratoi a chynllunio.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 2

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

*Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model***Dyddiad/Date: 26/09/2019****Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Ffordd o annog y digybllion i cyrraedd eu hotensial.**

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	• Roedd y profiad yn brofiad diddorol ac yn un cadarnhaol o ran hybu'r disgyblion i gyrraedd ei wir botensial a cheisio gwrthio ei gallu yn y dasg rhoddwyd iddynt. • Roedd y profiad hefyd yn profi nad oedd angen gweithredu unrhyw system gymhleth gyda'r dosbarth penodol yma i alluogi'r athro i asesu hyn.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	• Roedd y wers yn wers ymarferol yn y labordy gwyddoniaeth ac roedd y ffordd gwnaeth yr athro drefnu'r plant i weithredu yn gweithio yn effeithiol iawn, pob disgybl yn cerdded i gasglu ei offer yn glocwedd. • Roedd cyfarwyddiadau'r athro a'r esboniad a gafodd y plant yn drwyadl iawn. Cafodd y system 'Pyramid Indiaid' ei chyflwyno a dyma oedd y ffordd yr aseswyd y disgyblion. • Roedd y pyramid ar y bwrdd gwyn, ac roedd pob disgybl medru i weld hi. Roedd pum sylfaen ar y pyramid 'Lime Pickle', 'Nan-bread', 'Kima- Nan', 'Korma' a ' Madras'. Roedd pob disgybl yn dechrau ar sylfaen 'Nan-bread' a'r bwriad oedd bod y disgyblion yn codi yn y pyramid yn lle gostwng. • Er bod y ffurf o asesu yn ddiddorol roedd hi'n amlwg ei bod yn ffurf a oedd yn gweithio. Roedd hi'n ffordd rhwydd i'r athro asesu ac annog y plant yn ogystal â rhoi'r mewnbyn i'r plant i wella eu perfformiad.

	• Yr unig elfen siomedig oedd bod y plant yn dueddol i fynd oddi ar y dasg yn feddylol yn rhwydd ac yn cystadlu yn erbyn eu cyfoedion wrth gyflawni'r dasg.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	• Yn fy marn i roedd y wers yn gweithredu yn arbennig iawn ar y cyfan felly bydden i yn cadw'r holl ffactorau yn union yr un peth. • Yr achos fwyaf siomedig oedd y ffaith fod gan y disgyblion fwy o ddiddordeb yng ngwaith eu cyfoedion na'u gwaith nhw eu hunain felly roeddent yn colli'r profiad personol o lwyddo yn y dasg mewn ambell achos.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i>	• Os oes grŵp o blant yn llwyddo ar dasg ymarferol yn y labordy efallai byddai hi'n syniad i'w annog nhw i geisio helpu eu cyfoedion i lwyddo yn y dasg yn lle eu symud nhw ymlaen i'r cam nesaf. • Teimlaf y byddai hyn yn gweithredu yn dda oherwydd byddai'r disgyblion yn canolbwyntio ar eu waith nhw eu hunain yn lle edrych ar sefyllfa grwpiau eraill.

<i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 3

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl yn amharu ar y wers.

Profiad/ <i>Experience</i>	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	• Roedd y profiad yn agoriad llygaid i fi yn bersonol oherwydd y dangosodd i mi pa mor enfawr y gall effaith un disgybl yn amharu ar ddosbarth ei gael ar y wers, nid dim ond ar y dysgu ac addysgu ond ar ymatebion disgyblion, y ffordd mae'r plant yn ymddwyn a hefyd ar ymateb yr athro i'r disgyblion.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i>	• O ran agweddau o'r wers a aeth yn dda roeddwn i yn credu bod yr athro dosbarth yn amyneddgar iawn gyda'r disgybl a'r dosbarth cyfan. Hefyd ni wnaeth yr athro adael i'r disgybl yma golli rheolaeth yn llwyr gan effeithio ar y wers mewn ffordd negyddol. • O ran agweddau siomedig, ni wnaeth y disgybl gymryd unrhyw sylw o'r athro, ac roedd ei ymddygiad yn tarfu ar y wers ac ar y rhan fwyaf o'r disgyblion, yn enwedig y rhai oedd yn eistedd wrth ei ymyl.

<i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	• Gwers goginio sydd yn cael ei harsylwi yn yr achos yma ac o ran elfennau da roedd bwriad y wers yn un dda ac yn cynnwys gweithgareddau syml i'r plant a oedd yn ehangu eu geirfa nhw ac yn dysgu termau allweddol iddynt sydd yn gysylltiedig â'r pwnc. • O ganlyniad i'r elfen siomedig, sef agwedd ac ymddygiad yr un ddisgybl yna a'r effaith oedd yr ymddygiad yna yn cael ar weddill y dosbarth.
Casgliadau a chymau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i>	• O ran elfennau i newid er mwyn datblygu efallai y byddwn i yn symud y disgybl i weithio ar wahân i weddill y dosbarth os nad oedd ei ymddygiad yn gwella. • Byddai cynllun eistedd hefyd wedi gweithio yn effeithiol efallai ac o bosib wedi lleihau'r effaith.

<i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Ffordd syml arall byddai wedi ceisio disgyblu'r disgybl yn fwy llym.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 4

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

*Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model***Dyddiad/Date: 02/10/2019**

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Defnydd o'r iaith Saesneg mewn gwrs Hanes cyfrwng Gymraeg.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	• Teimlaf fod yr athro yn drugarog iawn pan oedd hi'n dod i gywiro'r disgyblion ynghylch eu defnydd o'r iaith Saesneg mewn gwrs a oedd yn cael ei dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning</i>	• Roedd y wers ar y cyfan yn gweithredu yn arbennig o dda, roedd y disgyblion yn cael trafodaeth ac yna dadl ynglŷn â Harri eVII. • Roedd rheolaeth yr athro dros y dosbarth yn dda iawn wrth i'r dasg cael ei gweithredu. • Y siom fwyaf yn y wers yma oedd y ffaith bod y plant yn siarad yn Saesneg ymysg ei gilydd ac yn gyhoeddus ar ambell i adeg. Roedd hi'n

<i>experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	siomedig i glywed y plant yn siarad Saesneg ac yn fy marn i nid oedd yr athro dosbarth yn cywiro'r disgyblion ddigon neu yn rhoi cosbau digon llym.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	● Bydden i yn cadw trefniant a strwythur y wers yn union yr un peth oherwydd roedd y rhain yn elfennau a oedd yn gweithio yn llwyddiannus. Roedd hi'n amlwg fod disgyblion yn cael eu cynhyrfu wrth i'r ddadl datblygu ac felly roedd y disgyblion yn newid o'r Gymraeg i siarad yn Saesneg.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Y camau nesaf i fi yn bersonol byddai i wneud hi'n amlwg beth yw canlyniadau os ydy'r disgyblion yn siarad Saesneg ac efallai cynllunio cynllun bydd yn cael ei weithredu yn yr ystafell dosbarth. • Er mwyn annog y disgyblion i siarad Cymraeg trwy gydol y drafodaeth efallai byddai'n syniad da i ddefnyddio'r wers yma i asesu'r gallu llythrennedd y plant a'i gosod hi fel tasg asesu.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 5: Gwers Mathemateg

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y wers: Roedd y wers yn wers mathemateg ac yn para am un awr. Roedd y dosbarth yn cynnwys 24 disgybl blwyddyn saith ac nid oedd cynorthwydd yn y dosbarth. y dosbarth yma oedd y dosbarth gallu uchaf.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Fe wnaeth yr athro dod i'r ddysgyblion ar waith yn syth ac fe wnaeth y disgyblion cadw ei sylw ar y gwaith a chanolbwyntio ar y tasgau cafodd i gyflwyno.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd pwrpas y wers yn glir iawn a'r pwrpas yn y sefyllfa yma oedd cyflwyno'r disgyblion i ddegolion. Roedd y gweithgareddau ac ymarferion yn galluogi i'r plant ymarfer y gwaith a hefyd yn herio nhw i wella.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Roedd yr esbonio yn glir iawn ac roedd yr athro yn esbonio mewn ffordd rhwydd i'r plant i ddeall. Os oedd angen esbonio unrhyw elfen o'r wers yn fwy o ddyfnder roedd yr athro yn barod i wneud hyn. Yn fy marn i roedd y ffordd roedd yr athro a'r disgyblion yn cyfathrebu yn effeithiol iawn, roedd hi'n amlwg i fod nhw'n deall i gilydd.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd y disgyblion yn dilyn y wers ac roedd amseru'r wers yn gyson iawn. Roedd yr athro yn cyflwyno tasgau/gweithgareddau oedd yn fwy heriol ac yn gwneud hyn mewn ffordd raddol wrth i'r wers mynd yn i flaen.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Ar ddechrau'r wers wnaeth yr athro dod i'r ateb ar y bwrdd ac wedyn gofyn i'r plant datrys y symiau posib. Yn ystod y wers roedd yr athro yn cwestiynu'r disgyblion yn rheolaidd ac yn gofyn iddynt esbonio'r camau wnaethon nhw ddefnyddio.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Roedd perthynas yr athro gyda'r disgyblion yn gweithio yn dda.
- Roedd yr athro yn esbonio ac yn dangos i'r plant fel oedd angen iddynt ddatblygu eu camau gweithio allan cyn iddo ddisgwyl iddynt ymarfer.
- Roedd y disgyblion yn cael digon o amser i weithio ac i gwestiynu.
- Roedd yr athro yn barod iawn i'r disgyblion dangos i ffordd nhw o weithio'r symiau allan yn eu ffordd nhw ac yn hapus iddynt ddefnyddio'r dechneg yma os oedd yn gwneud mwy o synnwyr iddyn nhw.

Atodiad 6: Ffordd o annog y digybllion i cyrraedd ei photensial.**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Roedd y wers yn wers gwyddoniaeth ac roedd y dosbarth yn cynnwys 27 disgybl, dyma'r dosbarth blwyddyn saith gallu uchaf. Nid oedd cynorthwydd yn bresennol yn y dosbarth yma ac roedd y wers yn para un awr.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Roedd y wers yn ymarferol ac roedd y plant yn astudio cylchredau trydanol. Cafodd y plant eu rhannu i mewn i grwpiau o 4/5 ac yn cydweithio i oleuo'r bylbiau. Yn fy marn i roedd y wers yn gweithredu ar gyflymder addas i'r plant. Roedd rheolaeth yr athro dros y dosbarth yn galluogi iddyn nhw ganolbwyntio ar yr hyn yr oeddent yn wneud.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Cafodd pwrpas a nod y wers i egluro ar y cychwyn. Roedd y disgyblion wedi trafod yr hyn roeddent wedi gwneud yn y wers flaenorol a phwrpas y wers yma oedd gweld y weithred yn digwydd.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Fe wnaeth yr athro esbonio yn glir ac fe wnaeth e hefyd gwneud y camau ymarferol cam wrth gam er mwyn dangos y weithred i'r disgyblion cael gweld. Er mwyn sicrhau fod y plant yn deall y dasg fe wnaeth y disgyblion cylchu'r athro i gael gwyllo. Wrth i'r plant dechrau ar y dasg wnaeth yr athro cerdded o amgylch i gadw llygaid ar y disgyblion.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Fe wnaeth yr athro sicrhau fod y disgyblion medru dilyn y gwaith. Er mwyn herio'r plant ymhellach fe wnaeth yr athro gosod y dasg o ymestyn y cylchred.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Roedd yr athro yn asesu gallu'r disgyblion yn gyson trwy gydol y wers a'r ffordd o wneud hyn oedd gweld os oedd y bylbau yn goleuo. Ar ddiwedd y wers roedd sesiwn o gwestiynu'r disgyblion ar yr hyn yr oeddent wedi dysgu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Techneg yr 'Indian Pyramid'.

Er nad oedd y disgyblion yn cael ei recordio yn ffurfiol ar ei medru roedd gan yr athro'r system yma i annog plant i weithio ar ei orau. Roedd y dull yma yn gweithio yn dda gyda CA3.

Atodiad 7: Disgybl yn ymharu ar y gwers

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019

Manylion y wers:

Gwers coginio lle'r oedd 18 disgybl yn bresennol. Nid oedd y disgyblion yma wedi cael ei dosbarthu yn ôl i allu, roedd y dosbarth yma yn gymysgedd, grŵp gallu cymysg. Nid oedd cynorthwydd yn y dosbarth.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Roedd yr un disgybl oedd yn amharu ar y wers yn gwneud hi'n anodd i'r athro dysgu gweddill y dosbarth a hefyd yn gwneud hi'n anodd iawn i weddill y dosbarth i ganolbwyntio.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd pwrpas clir i'r wers, roedd y disgyblion yn dysgu termau sydd i ymwneud ag coginio a sut y byddai hi'n bosib defnyddio'r termau.

Roedd y disgyblion yn cael gair megis 'Cacen' ac wedyn gorfod cysylltu'r gair gyda'r derminoleg ar y bwrdd megis 'Cacen flasmus'.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Roedd y dasg yn glir ond roedd y disgybl yn amharu cymaint ar y wers nid oedd y plant yn canolbwyntio ar y dasg.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)
Roedd y wers yn syml iawn ac roedd pob disgybl gyda'r gallu i ddilyn y wers er nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio. Nid oedd unrhyw gamau heriol yn datblygu yn y wers.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

O ran heriau a gwthio'r plant i ymestyn ei dealltwriaeth nid oedd unrhyw dasgau na gweithgareddau i annog y rhain.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
Mae'n bwysig i ddisgyblu'r disgyblion os nad ydynt yn canolbwyntio ar ei waith ac mae'n bwysig hefyd i ddisgyblu unrhyw unigolyn sydd yn amharu ar y wers neu gall hyn cael effaith ar y dosbarth cyfan. Hefyd mae'n bwysig i hwyluso a herio'r plant i gadw nhw o dan reolaeth ac ar y dasg.

Atodiad 8: Defnydd o'r iaith Saesneg yn gwera hanes Cymraeg.**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:02/10/2019

Manylion y wers:

Roedd y dosbarth yn cynnwys 32 disgybl yn bresennol ac roeddent yn ddosbarth gallu uchel ym mlwyddyn 8. Nid oedd cynorthwyydd yn bresennol.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)
Bwriad y wers oedd cynnal trafodaeth a dadl i ymwneud ag Harri VII. Cafodd syniadau i gyflwyno i'r ddwy ochr o'r ddadl ac roedd rhaid i'r disgyblion trafod y ddwy ochr cyn penderfynu ar ei barn nhw ac roedd pop disgybl ar waith.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd y drafodaeth ar ddechrau'r wers yn galluogi'r disgyblion i feddwl yn ddwys am beth fyddai ei barn bersonol nhw yn y ddadl. Felly, roedd y pwrpas yn glir iawn.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)
Roedd y disgyblion wedi cael esboniad clir ynglŷn â beth oedd rhaid iddyn nhw eu wneud, beth oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Roedd termau a geirfa allweddol wedi cael i gyflwyno i'r dosbarth er mwyn gwella ei ffordd o gyfathrebu yn y ddadl.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)
Pan oedd y disgyblion yn trafod ymhlith ei gilydd roedd yr athro yn gofyn cwestiynau mwy heriol yn gyson. Roedd hyn hefyd yn digwydd yn ystod y ddadl er mwyn ceisio cael atebion dyfnach wrth y plant.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?
Roedd yr athro yn cwestiynu'r myfyrwyr yn gyson ac yn asesu eu dealltwriaeth a'u gallu llythrennol y disgyblion trwy ofyn y cwestiynau hyn a gwranddo ar ei dadleuon.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
Roedd strwythur y wers yn un llwyddiannus iawn ond roedd y defnydd o'r iaith Saesneg yn gadael yr asesiad llythrennedd i lawr oherwydd roedd llawer o'r disgyblion yn dueddol i droi i'r Saesneg wrth ateb.

Llyfryddiaeth

BERA, (2019), '*Resource*', Darllenwyd: 13/10/19, <<https://www.bera.ac.uk/>>.

BERA, (2018), '*Ethical Guidelines for Educational Research*', (Pedwerydd Argraffiad), BERA, Darllenwyd:13/10/19.

Blaxter L., Hughes C., Tight M, '*How to Research*', (2010), (Pedwerydd Argraffiad), Berkshire: Open University Press.

Butt G., (2006), '*Lesson Planning*', (Second edn), London: Continuum International Publishing Group.

Capel S., Leassk M., Turner T., (2005), '*Learning to Teach in the Secondary School*', (Pedwerydd Argraffiad), Abington: Routledge

Capel S., Leassk M., Turner T., (2019), '*Learning to Teach in the Secondary School*', (Wythfed Argraffiad), Abington: Routledge

Cohen L., Manion L., Morrison K., (2018), '*Research Methods in Education*', (Wythfed Argraffiad), Abingdon: Routledge.

Donaldson, G. (2015), '*Successful Futures*' Darllenwyd: 14/10/19, <<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf>>.

Florian L., Hawkins-Black K., Rouse M., (2017), '*Achievement and Inclusion in Schools*', (Ail Argraffiad), Abington: Routledge.

Kumar, R., (2014), '*Research Methodology*', (Pedwerydd Argraffiad), London: SAGE Publications.

Riley, P., (2011), '*Attachment, Theory and The Teacher- Student Relationship*', Abington: Routledge.

Lindberg J., Kelly D., Swick A., (2005), '*Common- Sense Classroom Management for Middle and High School Teachers*', California: Corwin Press.

Llywodraeth Cymru, (2011), '*Revised Professional Standards for Education*', Darllenwyd 15/10/19, <<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/29/2f/54/b1/f4a84a58a939ae2cb2d403e9/professional-standards-for-education-practitioners-in-wales.pdf>>.

Mayo, E, (2003), '*The Human Problems of an Industrial Civilization*', (Chweched Argraffiad), Abington: Routledge.

Petty G., (2004), '*Teaching Today*', (Trydydd Argraffiad), Cheltnham: Nelson Thornes Ltd.

Sale, D., (2015), '*Creative Teaching*', (e-book), Darllenwyd: 15/10/19, <
https://books.google.co.uk/books?id=7HSnCQAAQBAJ&printsec=frontcover&dq=Evidence+Based+Teaching:+A+Practical+Approach+Geoffrey+Petty&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwiQrcOlur_IahX4VRUIHcJIDLAQ6AEIZDAI#v=onepage&q=Evidence%20Based%20Teaching%3A%20A%20Practical%20Approach%20Geoffrey%20Petty&f=false>.

White K., (2016), '*Teacher Communication*', Maryland: Rowman & Littlefield Ltd.